# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac ar Zoom ar 12 Medi 2024

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Gwilym O. Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Non Dafydd, Jeff Evans, John I. Jones, Derek Owen, Pip O'Neill, Ken Taylor, Sonia Williams.<br><br>**Aelod Portffolio**<br><br>Y Cynghorwyr Neville Evans (Aelod Portffolio dros Hamdden, Twristiaeth a Morol), Carwyn Jones (Aelod Portffolio dros Fusnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmser), Gary Pritchard (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio dros Wasanaethau Plant, Ieuenctid a Thai), Dafydd Roberts (Aelod Portffolio dros Addysg a'r Gymraeg), Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio dros Gyllid). |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth y Gwasanaethau Tai (NM)<br>Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion (AO)<br>Pennaeth Democratiaeth (DS)<br>Swyddog Sgriwtini (EA)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Swyddog Gweddarlledu (FT) |
| **YMDDIHEHURIADAU**: | Y Cynghorwyr Euryn Morris, Margaret M. Roberts, Alun Roberts (Aelod Portffolio dros Wasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio dros Briffyrdd, Gwastraff ac Eiddo), Mr John Tierney, Gillian Thompson, Wenda Owen (Aelodau Cyfetholedig), Mr Rhys H. Hughes (Dirprwy Brif Weithredwr) Anwen Davies (Rheolwr Sgriwtini), Lyndsey Campbell Williams (Prif Weithredwr Dros Dro Medrwn Môn) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Rita Radcliffe (Môn CF), Cara Jones, Danielle Owen (Cyngor ar Bopeth Môn) |

### 1 YMDDIHEURIADAU

Roedd yr ymddiheuriadau fel y'u nodir uchod.

### 2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Sonia Williams fuddiant personol yn unig mewn perthynas ag eitem 6 ar y rhaglen, gan fod ganddi gysylltiad â Chyngor ar Bopeth Ynys Môn trwy ei gwaith gyda Bwyd Da Môn.

## 3 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar y dyddiadau a ganlyn a chadarnhawyd eu bod yn gywir –

- 19 Mehefin, 2024.
- 10 Gorffennaf, 2024.

## 4 PARTNERIAETHAU STRATEGOL - MEDRWN MÔN

Ni ystyriwyd yr eitem hon oherwydd nad oedd Prif Swyddog Dros Dro Medrwn Môn yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod am resymau personol.

## 5 MÔN CF (CYMUNEDAU YMLAEN)

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol y cyflwyniadau dan yr eitem hon a'r eitem a ganlyn oedd yn gysylltiedig â Chynllun Strategol Trechu Tlodi 2024 i 2029 y Cyngor. Roedd y cynllun wedi'i seilio ar chwe maes blaenoriaeth allweddol ar gyfer gweithredu, gyda'r gwaith hwn yn cael ei gyflawni trwy weithio mewn partneriaeth â Chymunedau'n Gyntaf Môn a Chyngor ar Bopeth, ymhlith eraill, a chydweithio â nhw.

Cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai at waith yn y Cyngor oedd yn ymwneud â mynd i'r afael â thlodi, gwaith hanfodol yr oedd helpu trigolion Ynys Môn i gael mynediad at fudd-daliadau a hawliadau yn rhan hanfodol ohono. Roedd gan y Cyngor Dîm Hawliau Lles yng Nghanolfan JE O'Toole yng Nghaergybi a wasanaethai'r Ynys gyfan. Daeth tua 5,400 o drigolion i mewn i'r ganolfan yn y flwyddyn rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, gyda 1,900 ohonynt yn berchnogion tai, 1,800 yn denantiaid y Cyngor a 780 yn denantiaid preifat. O ran proffil oedran y rhai oedd yn ceisio cymorth a chefnogaeth y gwasanaeth, roedd tua 60% yn 55 oed a throsodd, 10% yn yr ystod oedran 25 i 34, 13% yn yr ystod oedran 35 i 44 ac roedd 14 % yn yr ystod oedran 45 i 54. Roedd y ganolfan yn gwneud llawer o waith yn cynorthwyo unigolion i sicrhau'r budd-daliadau a'r cymorth y gallent fod â hawl iddynt ac, yn 2023/24, llwyddodd y ganolfan i sicrhau enillion ariannol o tua £5.7m i'r rhai oedd yn ceisio ei chymorth a, thrwy hynny, gyfrannu at liniaru caledi ariannol i'r aelwydydd hynny.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Rita Radcliffe, Prif Weithredwr Cymunedau Ymlaen Môn i'r cyfarfod gan ei gwahodd i roi trosolwg o waith y sefydliad.

Amlinellodd Ms Radclife y cefndir i Môn CF. Roedd yn elusen leol oedd yn eiddo i'r gymuned ac yn gweithredu ar Ynys Môn, gyda 45 o staff ar hyn o bryd a throsiant o £4m y flwyddyn. Roedd gan yr elusen swyddfeydd yn Amlwch, Caergybi a Phorthaethwy a swyddfa newydd yn agor yn Llangefni. Câi Môn CF ei ariannu o sawl ffynhonnell gan gynnwys y Cyngor ac roedd yn helpu dros 600 o unigolion ar yr Ynys ar unrhyw un adeg gyda chymorth cyflogaeth, chymorth busnes a hyfforddiant oedd, ynghyd ag ysgolion a phobl ifanc, ac adfywio trefi trwy berchnogaeth eiddo, yn flaenoriaethau strategol y sefydliad. Roedd y sefydliad yn cydweithio ag ystod o bartneriaid ac roedd ganddo gysylltiadau â nifer, gan gynnwys nifer o adrannau'r Cyngor ac roedd yn agored i weithio gyda holl wasanaethau'r Cyngor ar brosiectau lle ystyriai y gallai mewnbwn Môn CF ychwanegu gwerth. Rhoddodd Ms Radcliffe drosolwg o'r ystod o gymorth cyflogaeth a busnes a roddai Môn CF, ynghyd â'r data o ran ymgysylltiadau a chanlyniadau yn

2023/24 a 2024/25 (Ebrill i Awst). Roedd hyn yn cynnwys cymorth i'r di-waith i'w paratoi ar gyfer y byd gwaith, cymorth i'r rhai oedd eisoes mewn gwaith i wella eu hamgylchiadau, cymorth gyda gwersi gyrru a chostau cludiant a gofal plant, paratoi pobl ar gyfer gwaith trwy ystod eang o gyrsiau hyfforddi, cymorth i unigolion oedd am ddechrau eu busnesau eu hunain, cymorth ymarferol i gyflogwyr lleol gyda'u prosesau recriwtio a grantiau, yn ogystal â bod yn rhan o ffeiriau swyddi. Roedd Môn CF yn berchen ar 11 eiddo oedd yn gymysgedd o swyddfeydd, eiddo masnachol, ac eiddo preswyl. Trwy ei raglen eiddo roedd yn ceisio bod yn landlord gyda chydwybod cymdeithasol a olygai rhenti teg ac adeiladau o ansawdd uchel a gâi eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd.

Mynegodd y Pwyllgor ei werthfawrogiad o'r cyflwyniad a roddwyd gan Brif Weithredwr Môn CF ac yn sgil y wybodaeth a gyflwynwyd, cafwyd y pwyntiau trafod a ganlyn gan yr aelodau –

- A oedd Môn CF wedi gweld unrhyw newidiadau yn y galw ym math y cymorth oedd ei angen ar unigolion yn y blynyddoedd diwethaf.
- Math y cymorth a'r gefnogaeth yr oedd pobl mewn gwaith yn gofyn amdano amlaf.
- O gofio'r hinsawdd economaidd bresennol a'r argyfwng costau byw, a oedd Môn CF yn hyderus y gallai barhau i ddarparu'r ystod o gymorth a gwasanaethau yr oedd yn eu darparu ar y pryd neu a oedd yn rhagweld y byddai'n rhaid gwneud gostyngiadau mewn rhai meysydd.
- O gofio, yn hanesyddol, y bu canfyddiad bod Môn CF yn gwasanaethu ardal Caergybi yn bennaf, a allai'r sefydliad roi sicrwydd ei fod yn rhoi cymoth a gwasanaethau i bobl ar draws yr Ynys.
- Pa gymorth a gwasanaethau pellach gallai Cymunedau Ymlaen Môn eu darparu pe byddai ganddo adnoddau ychwanegol.
- A oedd y sefydliad wedi teilwra rhaglenni'n benodol naill ai ar hyn o bryd neu wedi'u cynllunio ar gyfer pobl 50 neu 60 oed oedd am newid gyrfa neu ymddeol ac a oedd pobl hŷn oedd yn chwilio am waith yn gwneud hynny o'u gwirfodd neu oherwydd bod yn rhaid iddynt gael dau ben llinyn ynghyd.
- Lle gellid gwella'r cydweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn ac eraill.
- Y meini prawf yr oedd Môn CF yn eu defnyddio i asesu angen pan oedd unigolion yn gofyn am gymorth, gyda gwersi gyrru er enghraifft.
- Y trefniadau ar gyfer cefnogi trigolion ward Aethwy unwaith y byddai Môn CF yn sefydlu swyddfa yn Llangefni, yn enwedig o ran unigolion nad ydynt yn gyrru ac o gofio bod gwasanaethau bysiau yn lleihau. Nodwyd y byddai symud o Borthaethwy i Langefni yn golygu colli ffynhonnell cefnogaeth a chymorth i drigolion y rhan yma o Ynys Môn.
- Y trefniadau ar gyfer darparu cymorth a chefnogaeth i bobl ifanc yn y grŵp oedran 18 i 25 yng nghyswllt unrhyw rwystrau i ddarpariaeth.
- Y trefniadau llywodraethu ar gyfer Môn CF ac a oedd gan yr ymddiriedolwyr yr arbenigedd i graffu'r sefydliad yn briodol.

Wrth ymateb i'r materion a godwyd gan y Pwyllgor, dywedodd Prif Weithredwr Môn CF fel a ganlyn –

- Er bod y cymorth a roddwyd yn flaenorol yn canolbwyntio ar fentora pobl i mewn i waith ac ar weithio gyda chartrefi di-waith a gyda Chymunedau am Waith, roedd, bellach, yn fwy amrywiol a chyfannol gydag unigolion yn cael cymorth gyda llawer o agweddau. Roedd Môn CF, hefyd, yn ymwneud yn fwy â hyfforddiant oedd, bellach,

yn benodol iawn i anghenion unigol a chyda chyflogwyr a lleoliadau gwaith a'r tasgau gweinyddol/Adnoddau Dynol cysylltiedig. Roedd, hefyd, yn helpu i hwyluso sefyllfa lle roedd cyflogwr/swydd yn addas i'r person oedd yn chwilio am waith. Roedd y dirwedd wedi newid ac ymhlith y newidiadau roedd cynnydd yn nifer y bobl mewn gwaith a ddefnyddiai gwasanaethau Môn CF.

- Bod pobl oedd mewn gwaith yn dod i Môn CF am gymorth i newid eu hamgylchiadau, boed hynny trwy sicrhau oriau ychwanegol i ychwanegu at eu cyflog, trwy sicrhau dyrchafiad, neu drwy ddod o hyd i waith yn nes at adref. Roedd Môn CF yn eu helpu i ddod o hyd i ateb i wella eu hamgylchiadau gan gynnwys trwy uwchsgilio os nad oedd hyfforddiant mewnol ar gael yn eu cyflogaeth bresennol. Roedd rhaglen yrru Môn CF yn gymorth mewn-gwaith y bu galw mawr amdano yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd yn rhoi mwy o opsiynau i'r rhai mewn gwaith oedd eisiau gwella eu hamgylchiadau gan gynnwys swyddi oedd wedi'u lleoli ymhellach i ffwrdd. Roedd Môn CF, hefyd, wedi profi mwy o alw am hyfforddiant pwrpasol, a olygai helpu unigolion i gael trwyddedau/tystysgrifau priodol.

Nododd y Pwyllgor bwysigrwydd rhaglen yrru Môn CF yn wyneb y gostyngiad mewn gwasanaethau bysiau ar Ynys Môn.

Yn y cyd-destun hwn, tynnodd y Prif Weithredwr sylw at y ffaith fod nifer o lwybrau bws hanfodol wedi'u tynnu'n ôl ar yr Ynys gan adael rhai cymunedau heb wasanaeth bws. Er bod y Cyngor yn ceisio trefnu darpariaeth gymunedol yn yr ardaloedd hynny, efallai y byddai gan rai unigolion yn y cymunedau yr oedd hyn yn cael effaith arnynt ac oedd, felly, yn ei chael hi'n anodd cyrraedd y gwaith, ddiddordeb mewn manteisio ar raglen yrru Môn CF. Awgrymodd y gallai fod yn fuddiol pe bai'r Cyngor yn archwilio'r mater hwn ymhellach mewn cydweithrediad â Môn CF.

- Er nad oedd gan Môn CF gynlluniau i dynnu unrhyw un o'i wasanaethau yn ôl gan fod eu hangen wedi'i brofi, roedd faint y gallai ei gyflawni yn dibynnu ar sicrhau'r cyllid, fel bod modd cael darpariaeth barhaus. Newidiodd cyllid y sefydliad ar gyfer ei waith gyda phobl ifanc yn ddiweddar a, thrwy hynny, cwtogwyd ar ei raglen ar gyfer pobl ifanc 16 i 19 oed er y daethpwyd o hyd i ffynhonnell arall o gyllid oedd yn fodd i'r rhaglen barhau am flwyddyn tra bod Môn CF yn ceisio ateb mwy parhaol. Fel gyda sefydliadau trydydd sector eraill, roedd Môn CF yn wynebu heriau ariannol ac ansicrwydd. Roedd Bwrdd Ymddiriedolwyr yr elusen wedi ymrwymo rhywfaint o'i gronfeydd wrth gefn i gynorthwyo gyda gwaith darparu gwasanaethau tra oeddid yn archwilio opsiynau ariannu a chynhyrchu rhagor o incwm.
- Y gellid cyflwyno data i'r Pwyllgor i ddangos lle roedd cyfranogwyr Môn CF wedi'u lleoli a'r niferoedd oedd yn mynd i swyddfeydd. Byddai, hefyd, yn dangos y rhesymeg dros leoliad y swyddfeydd hynny, gyda swyddfa Amlwch y prysuraf. Byddai sefydlu swyddfa yn Llangefni yn sicrhau llwybr i fwy o ardaloedd. Hoffai Môn CF, hefyd, wneud mwy o waith allgymorth mewn cymunedau ar draws yr Ynys a fyddai'n gwella hygyrchedd ymhellach.
- Pe bai adnoddau ychwanegol ar gael, byddai Môn CF yn gallu helpu mwy o bobl. Gwnaed ymdrechion i gadw llwythi achosion yn hylaw ond roedd y galw yn uchel. Byddai adnoddau ychwanegol yn fodd i Môn CF wneud mwy o waith gyda phobl ifanc, i ymestyn ei gynnig hyfforddiant i fwy o leoedd ynghyd â'i raglen yrru. Gellid, hefyd, wneud mwy o waith trwyddedu oedd wedi bod yn werthfawr wrth helpu llawer o unigolion i gael cyflogaeth - gwaith oedd â chyfradd trosi uchel h.y. Byddai Môn CF yn gwneud mwy o'r hyn yr oedd yn ei wneud eisoes, sef cefnogi pobl mewn ffordd oedd yn wirioneddol eu helpu.
- Er nad oedd Môn CF yn cynnig rhaglenni penodol oedd yn gysylltiedig ag oedran, roedd wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl hŷn oedd yn defnyddio'i wasanaethau, gyda llawer ohonynt yn dymuno dychwelyd i'r gwaith i ychwanegu at eu pensiynau.

Roedd yr holl wasanaethau yr oedd Môn CF yn eu cynnig ar gael i bob cleient, waeth beth fo'u hoedran. Defnyddiai pobl hŷn Môn CF oherwydd eu bod yn chwilio am incwm ychwanegol a/neu oherwydd eu bod eisiau rhywbeth i'w wneud a fyddai o ddiddordeb iddynt.

- Y gallai cydweithio wella pe bai sefydliadau partner yn cysylltu â Môn CF gyda'u syniadau, eu rhaglenni, neu eu mentrau i ganfod a oedd yn gallu rhoi cefnogaeth a chymorth ac a allai cydweithio ychwanegu gwerth. Byddai cynrychiolaeth ar grwpiau a phwyllgorau hefyd yn ddefnyddiol i hysbysu sefydliadau fel Môn CF a'u cynnwys.
- Y byddai cleientiaid oedd yn ceisio mynediad i'r rhaglen yrru yn dangos yn eu cyfarfod cyntaf sut y byddai gallu gyrru yn eu helpu. Byddai eu hamgylchiadau yn cael eu harchwilio a'u sgorio. Byddai'r mentor y oeddynt wedi'i neilltuo iddo yn llunio sail resymegol ac yn ei chyflwyno i reolwr prosiect y rhaglen yrru. Os oedd y cleient yn cwrdd â'r rhan fwyaf o'r meini prawf ac yn gallu dangos ymrwymiad i ennill trwydded yrru ac y byddai'n gwella eu hamgylchiadau yn sgil hynny e.e. fel eu bod yn cael mwy o oriau os oeddynt ar isafswm cyflog, yna byddent yn cael eu cefnogi.
- Bod yr astudiaeth dichonoldeb a wnaed mewn perthynas â sefydlu swyddfa yn Llangefni yn dangos bod y niferoedd ym Mhorthaethwy yn isel o gymharu â rhai Llangefni a'r cyffiniau. Fel rhan o'r astudiaeth, ystyriwyd ffyrdd y gallai cyfranogwyr barhau i ddefnyddio'r gwasanaeth gan gynnwys llwybrau bysiau a daethpwyd i'r casgliad bod digon o ffyrdd i gael mynediad at wasanaethau Môn CF, naill ai yn Llangefni, Amlwch, neu'n rhithwir. Roedd gofod swyddfa hefyd yn ffactor wrth sefydlu presenoldeb yn Llangefni.
- Bod Môn CF yn parhau i weithio gyda phobl ifanc 18 i 25 oed ac yn ariannu lleoliadau gwaith ar eu cyfer. Cyfeiriodd Prif Weithredwr Môn CF at newidiadau i'r rhaglen a threfniadau ariannu ar gyfer y gefnogaeth a ddarperid ar gyfer y grŵp oedran hwn ac eglurodd y ddarpariaeth gyfredol.
- Bod Bwrdd Ymddiriedolwyr Môn CF yn cynnwys aelodau gyda chymysgedd da o wybodaeth, sgiliau ac arbenigedd.

Mynegodd aelod o'r pwyllgor bryder a thristwch am effeithiau tlodi ar gymunedau ac unigolion ar draws yr Ynys a chydnabod y gwaith rhagorol yr oedd sefydliadau cyngor a chymorth fel Môn CF a Chyngor ar Bopeth yn ei wneud i gynorthwyo'r rhai a ddeuai atynt am gymorth. Cyfeiriodd at yr amgylchiadau economaidd heriol, a'r argyfwng costau byw parhaus ac yn benodol at dynnu'n ôl y lwfans tanwydd gaeaf i lawer o bensiynwyr. Cododd gwestiynau am yr hyn yr oedd y Cyngor a sefydliadau partner yn ei wneud yn ymarferol i helpu'r rhai oedd yn gymwys ar gyfer credyd pensiwn ond nad oeddynt yn ei hawlio i gael mynediad at y cymorth ariannol ychwanegol hwn. Awgrymodd y dylid cynnal cyfarfodydd ar draws yr Ynys i ledaenu'r gair, hyrwyddo'r ffaith bod y budd-dal ar gael, helpu unigolion i wneud cais amdano i gynyddu'r nifer a fanteisiai arno a helpu i liniaru'r caledi y byddai llawer o bensiynwyr yn ei wynebu yn ystod misoedd y gaeaf i ddod.

Er i Brif Weithredwr Môn CF gadarnhau y byddai'n hapus gyda sefydliadau partner eraill yn rhan o ymdrech o'r fath, amlygodd y byddai angen cyllid i gefnogi'r fenter.

Dywedodd y Prif Weithredwr y gallai budd-daliadau fod yn faes cymhleth a bod llawer o bobl am wahanol resymau yn amharod i ddod ymlaen i geisio cymorth neu hawlio lwfansau ychwanegol y gallent fod yn gymwys i'w cael. Byddai ymgyrch gyhoeddusrwydd neu sioe deithiol yn helpu rhai pensiynwyr, ond nid pob un, ac efallai na fyddai llawer ohonynt am gael eu gweld yn gyhoeddus yn gofyn am gymorth ariannol. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'n trafod y mater yn fewnol; yn y lle cyntaf gyda Phennaeth y Gwasanaethau Tai a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ac, wedi hynny, gyda sefydliadau partner i archwilio'r hyn y gellid ei wneud gan gofio, hefyd, bod y Cyngor, o bosibl, yn wynebu diffyg o £12m yn y gyllideb yn

2025/26. Tynnodd sylw at y ffaith fod gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i sicrhau bod unigolion yn gwireddu eu hawliau e.e ystyrrir defnyddio gwybodaeth refeniw a budd-daliadau i nodi unigolion sydd mewn perygl o fynd i ddyled oherwydd tlodi ac i'w helpu i gael budd-daliadau neu drwy ddulliau eraill. Fodd bynnag, weithiau gallai cael gair distaw gydag unigolyn neu gartref fod yn fwy priodol ac yr un mor effeithiol.

Tynnodd Cara Jones, Cyngor ar Bopeth Môn, sylw at y ffaith nad oedd llawer o bensiynwyr cymwys yn dod ymlaen i fanteisio ar y cymorth oedd ar gael er bod darpariaeth allgymorth ar draws yr Ynys i helpu gyda cheisiadau Credyd Pensiwn a gâi ei hwyluso gan y Cyngor.

**Diolchodd y Pwyllgor i Brif Weithredwr Môn CF am ei hamser a'i chyflwyniad a chydnabod y gwaith a'r gefnogaeth ragorol a geid gan y sefydliad.**

**Camau gweithredu y cytunwyd arnynt –**

- **Bod swyddogion, mewn cydweithrediad â Môn CF, yn ymchwilio i weld a oes unigolion mewn cymunedau lle roedd y gwasanaeth bws wedi'i dynnu'n ôl, a fyddai'n elwa o raglen yrru Môn CF.**
- **Bod y Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 15 a Phennaeth y Gwasanaethau Tai, yn archwilio ffyrdd y gall y Cyngor ei hun a thrwy gydweithio â'i bartneriaid, helpu rhagor ar unigolion, lle bônt yn gymwys, i gael credyd pensiwn a/neu hawliau eraill.**

## 6 CYNGOR AR BOPETH YNYS MÔN

Cyflwynodd y Cadeirydd Cara Jones, Rheolwr Prosiect a Goruchwylydd Ynni, a Danielle Owen o Gyngor ar Bopeth, Môn a'u gwahodd i roi trosolwg o'r gwasanaethau a ddarperir gan y sefydliad.

Amlinellodd Cara Jones waith Cyngor ar Bopeth Môn, sef roi cyngor cyfrinachol a diduedd am ddim i bobl ynghylch eu hawliau. Nod y sefydliad oedd helpu pobl, beth bynnag oedd eu problemau, a gwella polisïau ac arferion a gâi effaith ar fywydau pobl. Rhoddid cyngor ar ystod eang o faterion, gan gynnwys budd-daliadau, dyled, cyllidebu, tai, cyflogaeth, gofal cymunedol a mudo, pynciau yr oedd llawer ohonynt yn gysylltiedig â thlodi, atal tlodi a helpu pobl i wella eu hamgylchiadau. Er bod Cyngor ar Bopeth Môn ar gael i bawb, roedd yn cydnabod bod rhai grwpiau a chymunedau mewn mwy o berygl o dlodi nag eraill a chanolbwyntiai ei ymdrechion yn y meysydd hyn. Roedd grwpiau blaenoriaeth Cyngor ar Bopeth Môn yn cynnwys gofalwyr a phobl ag anabledd tymor hir a phroblemau iechyd gan gynnwys iechyd meddwl, dibyniaeth, anawsterau dysgu ac awtistiaeth. Roedd y sefydliad, hefyd, yn helpu plant a phobl ifanc, cyn-filwyr, pobl ddigartref, pobl hŷn a dioddefwyr cam-drin domestig. Roedd y Cyngor yn cyfrannu at gyllid craidd y sefydliad oedd yn hanfodol i Gyngor ar Bopeth Môn fel elusen. Cyfeiriodd Cara Jones hefyd at gyfraniadau cyllid eraill yr oedd Cyngor ar Bopeth Môn wedi'u derbyn ar gyfer gwaith a phrosiectau penodol. Eglurodd y strwythur staffio a'r trefniadau llywodraethu a oruchwylir gan Fwrdd Ymddiriedolwyr a osodai, hefyd, gyfeiriad strategol y sefydliad. Roedd Cyngor ar Bopeth Môn yn gweithio mewn partneriaeth â llawer o sefydliadau ar nifer o brosiectau gan gynnwys y Cyngor, oedd yn cydweithio â nhw mewn sawl maes, gan gynnwys ar grwpiau amlddisgyblaethol megis y grŵp Trechu Tlodi. Yn 2023/24, helpodd Cyngor ar Bopeth Môn 2,069 o gleientiaid gyda 15,680 o faterion ar draws 19,532 o weithgareddau. Gwireddwyd tua £1.734m o fudd-daliadau a hawliadau i gleientiaid ynghyd â £177k mewn datrys dyledion. Cafodd saith deg saith o gleientiaid ragor o gymorth yn dilyn cau ffatri *2 Sisters* yn Llangefni ar ôl i gymorth

cychwynnol ar y safle gael ei roi pan gynigiwyd cyfweliad i'r holl weithwyr yr oedd y cau yn cael effaith arnynt.

Roedd y galw am wasanaethau Cyngor ar Bopeth Môn yn parhau i dyfu gan arwain at amseroedd aros a heriau o ran datrys problemau o fewn amser penodol. Golygai costau byw a chostau ynni cynyddol bod mwy o bobl yn ei chael hi'n anodd diwallu anghenion sylfaenol gan eu rhoi mewn mwy o berygl o dlodi a dyled. Defnyddiai mwy o bobl, hefyd, y gwasanaeth am gyngor cyfreithiol oherwydd na allent gael cymorth cyfreithiol na fforddio cynrychiolaeth gyfreithiol. Er gwaethaf yr heriau, byddai Cyngor ar Bopeth Môn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i roi cymorth ac i rannu gwybodaeth am y ffordd orau o helpu'r rhai oedd â'r angen mwyaf.

Cafwyd y pwyntiau trafod a ganlyn gan yr aelodau —

- Capasiti staffio Cyngor ar Bopeth Môn i allu bodloni'r ceisiadau am gymorth
- Meysydd lle gallai cydweithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn ac eraill wella
- A oedd Cyngor ar Bopeth Môn wedi gweld unrhyw newidiadau mawr yn y cyfnod ôl-Covid
- Y ffyrdd y gallai'r Cyngor helpu Cyngor ar Bopeth Môn i gyflawni mwy, yn arbennig felly o ran sicrhau cyllid. Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad o'r sefyllfa ariannu.

Mewn ymateb i'r materion a godwyd, dywedodd cynrychiolwyr Cyngor ar Bopeth Môn fel a ganlyn –

- Bod rhestr aros am gefnogaeth gan Gyngor ar Bopeth Môn ar hyn o bryd. Roedd hyd yr aros yn dibynnu ar y prosiect/mater ond, ar gyfartaledd, yr amser byrraf oedd dwy i dair wythnos gyda materion yn ymwneud ag ynni. Roedd y cyfnod cyn y Nadolig yn hanesyddol brysur a'r disgwyl oedd y byddai'n arbennig felly eleni oherwydd bod lwfans tanwydd y gaeaf wedi'i dynnu'n ôl. Er y byddai'r sefydliad yn ymateb i bobl oedd yn ceisio ei gymorth, roedd yn her. Byddai cyllid ychwanegol yn fodd i Gyngor ar Bopeth Môn gyflogi mwy o gynghorwyr.
- Bod Cyngor ar Bopeth Môn wedi bod yn rhan o gydweithio llwyddiannus gyda'r Cyngor yn seiliedig ar gyswllt agos a rheolaidd gydag enghraifft yn y maes tai ac, yn benodol, brosiect gwella ynni mewn pentref ar yr Ynys. Byddai sefydlu cyswllt rheolaidd gyda holl wasanaethau'r Cyngor yn hwyluso cydweithio.
- Byddid wefi ailddechrau cyswllt wyneb yn wyneb wedi'r cyfnod ôl-Covid yn ogystal â gweld cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau Cyngor ar Bopeth Môn. Daeth y pandemig Covid, hefyd, â newid yn y ffordd y gwnaed cyswllt ac roedd wedi bod yn fodd i'r sefydliad gael mynediad at fwy o bobl trwy sianeli oedd yn fwy addas ar eu cyfer. Roedd achosion, hefyd, wedi dod yn fwy cymhleth ac, weithiau, roedd yn gallu cymryd amser hir a mewnbwn nifer fawr o arbenigwyr i'w datrys.
- Bod cyllid yn debygol o fod yn heriol wrth symud ymlaen wrth i fwy o bobl geisio cymorth y sefydliad. Roedd cydweithio wedi bod yn rhan allweddol o'r prosiectau mwyaf llwyddiannus ynghyd â gweithio ar y cyd mewn ffordd gyfannol. Pe bai'r Cyngor yn dod yn ymwybodol bod cyllid ychwanegol ar gael, efallai y byddai'n ystyried gwahodd Cyngor ar Bopeth Môn i fod yn rhan ohono. Roedd disodli ffrydiau ariannu oedd yn dod i ben yn her ac yn bryder, yn enwedig o ran gwaith allgymorth a chyfreithiol yr oedd rhywfaint ohono'n cael ei ariannu o'r cronfeydd wrth gefn.

Amlygodd y Prif Weithredwr fod cydweithio yn un o werthoedd craidd y Cyngor a'i fod yn faes oedd yn esblygu'n barhaus. Roedd Cynllun Strategol Trechu Tlodi'r Cyngor yn ddogfen i'r Cyngor cyfan oedd wedi'i hategu gan strwythurau a ddeuai â gwasanaethau ynghyd. Ymgorfforai ddangosfwrdd cost-byw a roddai wybodaeth amser real am sefyllfa

costau byw ac roedd yn fodd i unrhyw dueddiadau gael eu nodi a'u dadansoddi. Roedd y Cyngor o'r farn ei bod yn bwysig y câi penderfyniadau ynghylch trechu tlodi eu llywio gan ddata a'u bod yn seiliedig ar wybodaeth. Diolchodd i Gyngor ar Bopeth Môn am eu cyflwyniad ac fel partner pwysig o'r Cyngor a'r gobaith oedd y byddai'r cyfarfod wedi rhoi sicrwydd i'r aelodau bod y Cyngor yn cydweithio'n effeithiol er mwyn mynd i'r afael â thlodi a gwella canlyniadau i drigolion yr Ynys.

**Diolchodd y Pwyllgor i Cara Jones a Danielle Owen o Gyngor ar Bopeth Môn am eu hamser a'u cyflwyniad ac am waith gwerthfawr y sefydliad yn darparu cyngor a chefnogaeth i drigolion Ynys Môn.**

**Nid oedd unrhyw gamau gweithredu ychwanegol.**

## 7 BLAEN RAGLEN WAITH 2024/2025

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad y rheolwr Sgriwtini oedd yn cynnwys Blaenraglen Waith y Pwyllgor hyd at Ebrill 2025.

**Penderfynwyd–**

- **Cytuno ar fersiwn gyfredol y blaenraglen waith ar gyfer 2024/25.**
- **Nodi'r cynnydd hyd yn hyn wrth weithredu ar y blaenraglen waith.**

**CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**